



Pensiynau personol

Y gwahanol fathau o bensiynau personol, sut maent yn gweithio a pha un allai fod yn addas i chi



**Gwasanaeth
Cyngtori Ariannol**

- ➔ Yr opsiynau sydd ar gael
- ➔ Pethau i'w hystyried
- ➔ Penderfynu a yw pensiwn personol yn addas i chi

Yma i'ch helpu chi

Mae'r **Gwasanaeth Cynggori Ariannol** yn wasanaeth annibynnol, a gafodd ei sefydlu gan y llywodraeth i roi cymorth i bobl wneud y gorau o'u harian gan roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim. Yn ogystal â chyngor am bensiynau, rydym yn cynnig gwybodaeth am amrediad eang o bynciau eraill yn ymwneud ag arian.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i roi cymorth i chi wneud penderfyniadau deallus a chynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

 moneyadviceservice.org.uk

Cyngor diduedd am ddim

-  ar y we
-  ar y ffôn

Os ydych yn hunangyflogedig a ddim yn gweithio ar hyn o bryd, neu na fedrwch chi ymuno â chynllun pensiwn gweithle, bydd y canllaw hwn yn rhoi cymorth i chi ddeall y manteision o gynilo mewn pensiwn personol a pha fath allai fod yn addas i chi.

Cynnwys

Beth yw pensiwn personol?	2
Mathau o bensiwn personol – cipolwg	3
Sut mae pensiynau personol yn gweithio	4
Pensiynau rhanddeiliaid	6
Pensiwn Personol Hunan Fuddsoddol (SIPP)	8
Faint ddylech chi gynilo i mewn i bensiwn?	10
Dewis darparwr pensiynau	12
Gostyngiad treth ar gynilo mewn pensiwn	14
Cymryd eich pensiwn	16
Deall y Jargon	17
Cysylltiadau defnyddiol	19

Os nad ydych yn siŵr pa fath o bensiwn personol sydd orau i chi, rydym yn argymhell ymgynghori â chynghorydd ariannol rheoledig. Gweler tudalen 12 i ddeall rhagor ac i chwilio am gynghorydd yn lleol i chi.

Beth yw pensiwn personol?

Mae pensiwn personol yn fath o gynllun pensiwn ac yn unol â chynlluniau pensiwn eraill, sy'n cynnig ffordd effeithiol o ran treth i gynilo ar gyfer ymddeoliad.

Mae arian a delir i mewn i gynllun pensiwn personol yn cael ei fuddsoddi i gronni cronfa o arian ar gyfer eich ymddeoliad.

Cewch ostyngiad treth ar y cyfraniadau - sy'n golygu bod y Dreth Incwm y byddech yn ei thalu fel arfer i'r llywodraeth yn cyfrannu at eich pensiwn yn hytrach. Mae'r arian yn y gronfa yn tyfu heb orfod talu fawr ddim o dreth a phan ddaw hi'n amser i chi ymddeol gallwch fel arfer gymryd hyd at chwarter (25%) o'ch pensiwn yn ddi-dreth.

Os oes gennych chi bensiwn personol hŷn efallai y gallwch gymryd mwy na 25% yn ddi-dreth, ond bydd angen i chi wirio hynny gyda'ch darparwr pensiwn. Gallwch fel arfer ddefnyddio'ch cronfa pensiwn o 55 oed.

Gweler 'Gostyngiad treth ar gynilion pensiwn' ar dudalen 14 i ddeall rhagor ynglŷn â sut mae gostyngiad treth ar gynilion pensiwn yn gweithio

Pwy all gael pensiwn personol?

Mae pensiynau personol yn addas ar gyfer amrywiaeth eang o bobl ac yn werth eu hystyried os:

- ydych yn hunangyflogedig (gan gynnwys gweithio fel rhan o'r economi 'gig' - gweler ar y dde)
- nad oes gennych unrhyw ddarpariaeth pensiwn arall ar wahân i Bensiwn y Wladwriaeth

- oes gennych gyflog afreolaidd neu'n cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, i fagu plant neu ofalu am eraill.

Hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw fath o gyflogaeth â thâl gallwch dalu i mewn i bensiwn personol serch hynny a chael gostyngiad treth. Gallwch hyd yn oed roi arian i mewn i gynllun pensiwn ar gyfer eich plant neu wyrion a wyresau.

Gall pensiynau personol gael eu defnyddio hefyd law yn llaw â phensiwn gweithle. Ond bydd unrhyw gynllun a gynigir gan eich cyflogwr yn debygol o fod yn well bargaen na chymryd pensiwn personol allan ar wahân, yn enwedig os bydd yn rhoi arian i gyfateb i'r hyn y byddwch chi'n dewis ei dalu i mewn.

Beth yw'r economi 'gig'?

Yn hytrach na chyflog rheolaidd, mae rhai gweithwyr yn cael eu talu am y 'gigs' a wnânt, fel danfon bwyd neu daith mewn car. Mae gweithwyr yn cael eu categorio fel contractwyr annibynnol ac nid ydynt yn gymwys i gael taliadau diswyddo, tâl salwch, tâl gwyliau na'r isafswm cyflog ac ni chânt eu cofrestru'n awtomatig ar bensiwn gweithle'r cyflogwr.

Yn y DU amcangyfrifir bod yna dros 2 miliwn o bobl yn gwneud y math hwn o waith.

Mathau o bensiwn personol – cipolwg

Mae yna dri math gwahanol o bensiwn personol, a gellir defnyddio pob un ohonynt fel cynllun pensiwn gweithle.

- **Pensiynau personol safonol** – a gynigir gan y rhan fwyaf o ddarparwyr pensiwn mawr. Yn debygol o gynnig amrywiaeth o ddewisiadau buddsoddi. Gweler tudalen 4.
- **Pensiynau rhanddeiliaid** – yn eich galluogi i wneud isafswm o gyfraniadau isel, a stopio a chychwyn taliadau, ac i symud arian heb gost. Mae costau blynyddol wedi'u capio er nid ydynt bob amser yn is na phensiynau eraill. Gweler tudalen 6.
- **SIPPau (Pensiynau Personol Hunan Fuddsoddol)** – mae'r rhain yn cynnig dewis ehangach a mwy soffistigedig o opsiynau buddsoddi na phensiynau safonol neu rhanddeiliaid. Angen rheolaeth ymarferol ond efallai y bydd costau uwch ynghlwm yn gyfnewid am ddewis ehangach o fuddsoddiad. Gweler tudalen 8.

Gall cyflogwyr gynnig pensiynau personol fel pensiynau gweithle a gelwir hyn yn 'Bensiwn personol grŵp' neu 'Bensiwn rhanddeiliad grŵp' neu 'Bensiwn personol grŵp hunan fuddsoddol'.

Pethau amgenach na phensiwn personol os ydych yn hunangyflogedig neu'n gyfarwyddwr unigol

Os ydych yn hunangyflogedig neu'n gyfarwyddwr unigol ar gwmni, gallech fod yn gymwys i ymuno â NEST – cynllun pensiwn gweithle cenedlaethol sydd â chostau isel ac yn hawdd i'w weinyddu. Yr isafswm allwch chi ei dalu i mewn yw £10 bob tro a'r uchafswm yn ystod y flwyddyn dreth hyd at y Lwfans Blynyddol presennol. I'r rhan fwyaf o bobl mae hyn yn £40,000 (blwyddyn dreth 2018-19) neu 100% o'ch enillion os yn llai. Gweler tudalen 15 am ragor o wybodaeth am y Lwfans Blynyddol.

- ➔ Dysgwch am bensiynau NEST i'r hunangyflogedig ar nestpensions.org.uk (chwiliwch am 'self-employed')

Sut mae pensiynau personol yn gweithio

Mae gan bob un o'r pensiynau personol nodweddion cyffredin a drafodir isod ac ar dudalen 5. Gweler tudalennau 6 ac 8 am nodweddion ychwanegol Pensiynau Rhanddeiliaid ac SIPPau.

Rydych yn dewis darparwr pensiwn ac yn trefnu i wneud cyfraniadau bob mis. Mae darparwyr yn cynnig dewis o gronfeydd sy'n buddsoddi mewn gwahanol fathau o fuddsoddiadau fel stociau a chyfranddaliadau, gyda'r nod o gynyddu'r gronfa yn ystod y blynyddoedd cyn i chi ymddeol.

Cewch ostyngiad treth ar y cyfraniadau ac mae eich cynilion yn cynyddu'n ddi-dreth fwy neu lai. Gweler tudalen 14 i weld sut mae gostyngiad treth yn gweithio, gan gynnwys terfynau.

Bydd maint eich cronfa bensiwn wrth i chi ymddeol yn dibynnu ar:

- am ba hyd rydych yn cynilo
- faint a delir i mewn i'ch cronfa bensiwn dros y blynyddoedd
- pa mor dda mae eich buddsoddiadau wedi perfformio
- pa gostau a gymerwyd allan o'ch cronfa gan ddarparwr eich pensiwn

Pwynt allweddol

- ➔ Cofiwch y gall eich cronfa bensiwn gael ei buddsoddi yn y farchnad stoc, sy'n medru gostwng yn ogystal â chynyddu, ac efallai na chewch chi gymaint o arian yn ôl ag a fuddsoddwyd gennych.

Dewis buddsoddiadau

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn personol yn cynnig amrywiaeth o gronfeydd buddsoddi.

Mae'n debyg y cewch gynnig dewis o gronfeydd sydd yn:

- arbenigo mewn 'asedau' penodol fel cyfranddaliadau, bondiau, eiddo ac ati
- buddsoddi mewn ardal ddaearyddol neu wlad benodol - e.e. cronfa sy'n buddsoddi mewn cwmnïau yn y DU yn unig neu'n canolbwyntio ar gwmnïau yn Ewrop
- buddsoddi mewn cymysgedd o wahanol asedau - e.e. cronfa yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau byd-eang a bondiau llywodraeth.

Gellir disgrifio'r gronfeydd hefyd fel rhai sy'n addas ar gyfer proffil risg neu arddull buddsoddi penodol, fel 'gofalus', 'cytbwys', neu 'awchus'.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis buddsoddi mewn mwy nag un gronfa neu mewn gronfeydd sy'n buddsoddi mewn cymysgedd o wahanol asedau, gan fod lledaenu ('amrywio') eich buddsoddiadau yn ffordd dda o reoli risg.

Ffioedd a thaliadau

Didynnir costau o'ch cronfa i dalu am y gost o fuddsoddi a rheoli'r gronfeydd. Mae costau arferol yn cynnwys ffi reoli flynyddol (sef canran o werth eich cronfa fel arfer) a chostau newid (os dymunwch newid eich gronfeydd). Bydd y darparwr yn rhoi rhestr o'r rhain i chi ac unrhyw gostau eraill, cyn i chi gymryd eich pensiwn. Os defnyddiwch gynghorydd ariannol bydd raid i chi dalu ffi am y cyngor hwnnw hefyd, ond cewch wybod ganddo faint fydd y gost cyn i chi ymrwymo.

Mae deall a chymharu costau'n rhan bwysig o ddewis pensiwn. Nid yw cronfa sy'n costio mwy yn golygu y bydd ei berfformiad yn well. Yn aml mae gan gronfeydd sydd ond yn tracio'r farchnad gostau llawer is ac yn perfformio'n well na chronfeydd sydd â chostau uwch sy'n ceisio 'curo'r' farchnad. Nid yw bob amser yn syml, ond os defnyddiwch gynghorydd ariannol rheoledig, gall roi help i chi gyda hyn. Gallai talu am gyngor arbed llawer o arian i chi yn yr hirdymor.

Cyfriflen flynyddol

Rhaid i'ch darparwr pensiwn personol roi gwybodaeth reolaidd i chi am eich cronfa bensiwn. Bydd hyn yn cynnwys cyfriflen flynyddol i roi gwybod i chi faint sydd wedi'i dalu i mewn, sut mae eich cronfa yn perfformio a rhagolwg o faint all gwerth eich pensiwn fod wrth i chi ymddeol. Dylech dderbyn eglureb wedi ei diweddarau yn flynyddol.

Gwiriwch eich cyfriflen flynyddol i sicrhau eich bod yn cynilo digon ar gyfer eich ymddeoliad.

Pensiynau personol ar gyfer eich plant neu wyrion ac wyresau

Gallwch gynilo hyd at £2,880 mewn unrhyw fath o bensiwn personol ar gyfer eich plant neu wyrion ac wyresau a chael gostyngiad treth ar eich cyfraniadau gan ddod â'r cyfanswm i £3,600. Gweler tudalen 14 i ddeall sut mae gostyngiad treth ar gyfraniadau pensiwn yn gweithio.

A yw pensiwn personol yn addas i chi?

Mae unrhyw un dan 75 oed yn y DU yn gymwys i ddechrau pensiwn personol. Nid oes terfynau oedran ar gyfer trosglwyddo gronfeydd pensiwn eraill i bensiwn personol.

Os ydych yn hunangyflogedig, ddim yn gweithio neu os nad oes gennych fynediad at bensiwn gweithle, gallai agor pensiwn personol fod yn ffordd dda o gynilo ar gyfer eich ymddeoliad. Darllenwch y rhannau ar Bensiynau Rhanddeiliaid a SIPPau i weld pa nodweddion eraill a gynigir ganddynt.

Os oes gennych chi bensiwn gweithle yn barod ac yn dymuno cynilo rhagor o arian, y peth gorau i'w wneud yw rhoi mwy o arian yn eich cynllun gweithle lle bydd y costau'n debygol o fod yn is a gallai'ch cyflogwr gyfrannu'r un faint â chithau.

Pensiynau cyfranddeiliaid

Mae pensiynau rhanddeiliaid yn fath o bensiwn personol sy'n rhaid iddynt fodloni safonau gofynnol a bennir gan y llywodraeth i sicrhau bod pobl sy'n eu dewis yn cael cynnig teg.

Pam maen nhw'n wahanol?

Yn wahanol i pensiynau personol safonol, rhaid i Bensiynau rhanddeiliaid gynnig:

- isafswm cyfraniadau isel
- hyblygrwydd i gychwyn a stopio taliadau heb gosb
- costau wedi'u capio (er gall rhai pensiynau personol safonol fod â chostau is)
- trosglwyddiadau di-dâl
- cronfa fuddsoddi 'ragosodedig' lle bydd eich arian yn cael ei fuddsoddi ynddi os nad ydych am ddewis cronfa eich hun.

Gweler isod am fwy o wybodaeth.

Taliadau isafswm isel

Gallwch dalu cyn lleied ag £20 i mewn i bensiwn rhanddeiliaid – neu lai os bydd y darparwr yn caniatáu – ond cofiwch efallai na fydd hynny'n ddigon i sicrhau ymddeoliad cyfforddus. Gweler tudalen 11 i weld faint allai'ch cyfraniadau ei ddarparu fel pensiwn wrth i chi ymddeol. Neu defnyddiwch y gyfrifiannell ar ein gwefan (gweler isod).

- ➔ Canfyddwch faint fydd angen i chi ei gynilo drwy ddefnyddio ein **Cyfrifiannell pensiwn** yn moneyadvice.service.org.uk/pensioncalculator

Hyblygrwydd i gychwyn a stopio taliadau

Gallwch dalu i mewn i bensiwn rhanddeiliaid yn rheolaidd neu'n achlysurol, ac os oes angen i chi newid y swm neu roi'r gorau i dalu i mewn ac ailddechrau eto, gallwch wneud hynny heb gael eich cosbi.

Ffioedd wedi'u capio

Gall darparwyr pensiwn rhanddeiliaid godi taliadau rheoli o ddim mwy nag 1.5% o werth eich cronfa bensiwn bob blwyddyn am y 10 mlynedd gyntaf, ac 1% wedi hynny.

Felly os mai gwerth eich cronfa yw £240 yn y flwyddyn gyntaf yr uchafswm fydd raid i chi ei dalu mewn costau rheoli y flwyddyn honno yw £3.60.

Eithriadau:

- os oeddech chi wedi dechrau eich pensiwn rhanddeiliaid cyn 6 Ebrill 2005, yr uchafswm y gellir ei godi arnoch yw 1%
- os yw cyflogwr yn defnyddio cynllun pensiwn rhanddeiliaid fel ei gynllun pensiwn gweithle, yr uchafswm o ffi a ganiateir ar gyfer cronfa ragdaledig yw 0.75%.

Ni fydd pob darparwr pensiwn rhanddeiliaid yn codi'r uchafswm felly mae'n werth cymharu'r costau rhwng gwahanol gynlluniau cyn prynu.

Trosglwyddiadau di-dâl

Gallwch newid i bensiwn arall ar unrhyw adeg os ydych yn dymuno, heb orfod talu unrhyw daliadau trosglwyddo o'ch pensiwn cyfranddeiliaid presennol.

Cronfa ragosodedig

Os nad ydych am ddewis cronfa fuddsoddi eich hun byddwch yn cael eich rhoi yng nghronfa 'ragosodedig' y cynllun rhanddeiliaid.

Sylwch fod rhai cronfeydd diofyn yn cynnig yr hyn a elwir yn elfen 'ffordd o fyw'. Mae hyn yn golygu o leiaf bum mlynedd cyn eich dyddiad ymddeol dewisol (neu'r dyddiad a osodwyd gan eich darparwr pensiwn fel eich dyddiad ymddeol) bydd eich cynilion pensiwn yn dechrau cael eu symud i fuddsoddiadau â llai o risg. Bydd hyn yn rhoi cymorth i warchod yn erbyn gostyngiadau mawr yng ngwerth eich cronfa wrth i ymddeoliad nesáu.

Fodd bynnag, efallai na fydd 'ffordd o fyw' yn addas i chi wrth i chi nesáu at ymddeoliad – yn enwedig os nad ydych yn bwriadu prynu blwydd-dal (incwm a warantir am oes) gyda'ch cronfa bensiwn, ond yn dymuno cadw'ch cronfa wedi'i buddsoddi a thynnu incwm ohoni. Os felly, gallwch ddewis diffodd yr elfen ffordd o fyw, ac un ai gadael eich buddsoddiadau fel ag y maent neu ddewis cronfeydd eraill eich hun. Mae llawer o ddarparwyr pensiwn yn adolygu eu trefniadau ffordd o fyw p'r un bynnag, felly mae'n werth gwirio pa ddewisiadau eraill sydd ar gael.

Os nad ydych yn siŵr, siaradwch â chynghorydd ariannol rheoledig a all eich cynghori a yw ffordd o fyw yn rhywbeth y dymunwch ei ystyried neu beidio, yn ddibynnol ar eich amgylchiadau personol.

Pwynt allweddol

- ➔ Er fod taliadau ar Bensiynau cyfranddeiliaid wedi eu capio, gall fod gan rai pensiynau personol safonol daliadau is. Chwiliwch am y cynnig gorau cyn prynu bob tro.

Pwynt allweddol

- ➔ Nid yw hi fyth yn rhy fuan i gychwyn talu i mewn i bensiwn. Gorau po gyntaf i chi gychwyn er mwyn i'ch cronfa dyfu – gan roi gwell sicrwydd i chi ar ôl ymddeol.



Pensiwn Personol Hunan Fuddsoddol (SIPP)

Mae SIPP yn gweithio mewn ffordd debyg i bensiwn personol safonol ond mae'n rhoi llawer mwy o ddewis i chi o ran buddsoddiadau y gallwch eu rheoli eich hun neu gyda chymorth cynghorydd ariannol.

Pam maen nhw'n wahanol?

Chi sy'n dewis ac yn rheoli'ch buddsoddiadau eich hun, neu'n talu rheolwr buddsoddi awdurdodedig i'ch helpu. Gan mai chi'n sy'n rheoli, gallwch wneud newidiadau ac ychwanegiadau i'ch buddsoddiadau fel y mynnwch. (Ond gyda phensiynau personol eraill rydych yn dewis o nifer cyfyngedig o gronfeydd a reolir ar eich cyfer gan y darparwr).

Sylwch y gallai nifer o SIPPau – yn enwedig rhai sy'n cynnig y dewis gorau o ddewisiadau buddsoddi – fod â chostau uwch na phensiynau personol safonol neu bensiynau rhanddeiliaid.

Dewis buddsoddiadau

Mae'r rhan fwyaf o SIPPau yn caniatáu i chi ddewis o amrywiaeth o asedau, fel:

- ymddiriedolaethau uned
- ymddiriedolaethau buddsoddi
- gwarannau llywodraeth
- cronfeydd cwmnïau yswiriant
- polisïau gwaddol a fasnachir
- rhai cynnyrch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
- cyfrifon cadw gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- eiddo masnachol (fel swyddfeydd, siopau neu safleoedd ffatri)
- stociau a chyfranddaliadau sydd wedi'u dyfynnu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn y DU neu dramor.

Nid dyma'r holl ddewisiadau buddsoddi sydd ar gael – mae gwahanol ddarparwyr SIPP yn cynnig gwahanol ddewisiadau buddsoddi.

Ni allwch ddefnyddio SIPP i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn eiddo preswyl. Fodd bynnag, gallwch fuddsoddi'n anuniongyrchol drwy rai buddsoddiadau cyfunol, fel ymddiriedolaethau buddsoddi eiddo tirol (a elwir hefyd yn REITau). Nid yw pob darparwr SIPP yn derbyn y math hwn o fuddsoddiad a cheir cyfyngiadau ar ddefnydd personol.

Ffioedd a thaliadau

Mae SIPPau yn amrywio o ran arddull o rai 'cost isel' gyda llai o ddewisiadau buddsoddi, i rai SIPPau 'llawn' gyda dewisiadau buddsoddi ehangach a mwy cymhleth a threfniant o gostau uwch. Gall ffioedd gynnwys: cost sefydlu, cost weinyddol flynyddol a ffioedd trafod – gyda rhai ffioedd yn sefydlog ac eraill yn seiliedig ar ganrannau, yn ddiabynnol ar y darparwr.

Cyn cymryd SIPP, chwiliwch am y fargen orau a chymharu costau, a gwnewch yn siŵr eich bod yn deall effaith bosib y costau ar eich buddsoddiadau.

A yw SIPPau yn addas i chi?

Mae unrhyw un dan 75 oed yn y DU yn gymwys i ddechrau SIPP, ac nid oes unrhyw gyfyngiadau oedran wrth drosglwyddo cronfeydd pensiwn eraill i mewn i un gronfa.

Fodd bynnag, nid yw SIPPau yn addas oni bai eich bod yn deall y farchnad ariannol ac yn fodlon treulio amser yn ymchwilio ac yn rheoli'ch buddsoddiadau'n bwrpasol – neu'n medru fforddio talu cynghorydd ariannol i wneud hynny ar eich rhan. Hyd yn oed wedyn, os oes gennych chi fynediad at bensiwn gweithle mae'n beth doeth yn ariannol i roi arian i mewn i'r gronfa honno i ddechrau, yn enwedig os yw'ch cyflogwr yn cyfrannu hefyd.

Cofiwch, gall buddsoddiadau ostwng yn ogystal â chynyddu, felly os dymunwch reoli SIPP eich hun, bydd angen i chi fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb am eich penderfyniadau os aiff pethau o chwith. Os nad ydych yn hyderus i wneud hynny, neu os oes gennych chi amheuan, siaradwch â chynghorydd ariannol rheoledig a fydd yn gallu'ch cynghori a yw SIPPau yn addas i chi ac, os bydd angen, roi cyngor i chi ddewis un a rheoli'r cronfeydd SIPPau – gweler tudalen 12 ar gael cyngor ariannol ac i ddod o hyd i gynghorydd yn lleol i chi.

Mae SIPPau yn galluogi i chi ddewis o ystod eang o fuddsoddiadau y gallwch eu rheoli eich hun. Cofiwch y gall gwerth eich buddsoddiadau gynyddu neu ostwng.

Oni bai eich bod yn brofiadol mewn rheoli buddsoddiadau, defnyddiwch gynghorydd ariannol rheoledig i'ch helpu i ddewis a rheoli'ch buddsoddiadau SIPP. Os buddsoddwch heb gael cyngor mae'n debygol y bydd gennych chi lai o ddiogelwch os aiff pethau o chwith.

Faint ddylech chi gynilo i mewn i bensiwn?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cynilo i mewn i bensiwn bob mis. Gorau oll os allwch chi gynyddu taliadau'n unol neu'n uwch na chyfradd chwyddiant bob blwyddyn – po fwyaf y talwch i mewn nawr po fwyaf fydd eich cronfa bensiwn pan ddaw hi'n adeg ymddeol, gan roi mwy o arian i chi fwy arno. Cewch fwy o ostyngiad treth gan y llywodraeth hefyd.

Gweler tudalen 14 i ddeall sut mae gostyngiad treth ar gynilion pensiwn yn gweithio.

Bydd eich pensiwn misol a amcangyfrif yn seiliedig ar wahanol gyfraniadau

Mae'r tablau gyferbyn yn rhoi amcangyfrif o'r pensiwn misol, ar brisiau heddiw, y gallech ei gael am gyfraniadau misol rheolaidd gwahanol, ar oed ymddeol o 65 neu 70. Mae swm y cyfraniad a ddangosir yn cynnwys gostyngiad treth (felly byddech yn talu ychydig yn llai na hyn) a thybir y byddai'n cynyddu 2.5% bob blwyddyn.

Tybir hefyd:

- y cymerir ffioedd o 0.75% y flwyddyn o'ch cronfa bensiwn
- bod eich buddsoddiadau pensiwn yn tyfu 5% y flwyddyn
- mae'r amcangyfrif o'r incwm pensiwn a ddangosir wedi ei nodi mewn arian heddiw. Gwnawn hyn drwy dynnu chwyddiant o'r swm ar gyfradd o 2.5% y flwyddyn.

■ rydym wedi tybio'ch bod yn defnyddio'ch cronfa bensiwn i brynu blwydd-dal sy'n talu lefel warantedig o incwm am oes a bod yr incwm hwn yn gyson drwy gydol eich ymddeoliad.

Yn gyntaf dewiswch 65 neu 70 fel eich oed ymddeol tebygol. (Cofiwch fod Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn amrywio yn ddibynnol ar eich oed ar hyn o bryd, gallwch wirio hyn yn gov.uk/check-state-pension).

Nawr edrychwch i lawr y golofn ar y chwith i ddod o hyd i'r oedran sydd agosaf at eich oed nawr.

Yna, edrychwch ar draws i ganfod y cyfraniad y dymunwch ei dalu. Mae'r symiau a ddangosir yn cynnwys gostyngiad treth felly byddwch yn talu ychydig yn llai na hyn. Er enghraifft ar y lefel £100 byddech yn talu £80 y mis yn unig.

➔ Gallwch hefyd ddefnyddio ein Cyfrifiannell bensiwn i ganfod sut y gallai maint eich cronfa bensiwn amrywio yn ddibynnol ar y swm a ddewiswch i'w dalu i mewn, gweler moneyadvice.service.org.uk/pensioncalculator

Amcangyfrif o'r pensiwn misol a gewch os byddwch yn ymddeol yn 65

Eich oed yn fras nawr	Y swm a delir i'ch cronfa bensiwn bob mis*					
	£20	£50	£75	£100	£150	£200
20	£61	£152	£228	£303	£454	£605
25	£52	£130	£195	£260	£390	£520
30	£44	£110	£165	£220	£330	£440
35	£36	£91	£137	£182	£274	£365
40	£30	£74	£111	£147	£221	£295
45	£23	£57	£86	£114	£171	£229
50	£17	£41	£62	£83	£124	£166
55	£11	£27	£40	£53	£80	£106
60	£5	£13	£19	£25	£38	£50

Amcangyfrif o'r pensiwn misol a gewch os byddwch yn ymddeol yn 70

Eich oed yn fras nawr	Y swm a delir i'ch cronfa bensiwn bob mis*					
	£20	£50	£75	£100	£150	£200
20	£81	£202	£302	£402	£603	£805
25	£70	£175	£263	£351	£526	£701
30	£60	£150	£226	£300	£452	£602
35	£51	£128	£192	£256	£383	£511
40	£43	£106	£160	£213	£320	£427
45	£35	£86	£130	£172	£258	£344
50	£27	£67	£100	£134	£201	£268
55	£20	£49	£73	£98	£146	£195
60	£13	£31	£47	£63	£94	£125

*Rydym wedi tybio bod cyfraniadau'n cynnwys gostyngiad treth a bydd yn cynyddu 2.5% bob blwyddyn.

Dewis darparwr pensiynau

Os penderfynwch fod pensiwn personol yn addas i chi, gallwch un ai:

- fynd yn uniongyrchol at y cwmni sy'n ei werthu, cymharu ei gynnyrch a phenderfynu eich hun pa un i'w ddewis. Fodd bynnag, gyda'r llwybr hwn os gwnewch y penderfyniad anghywir a gwelir bod y cynnyrch yn anaddas, rydych yn llai tebygol o allu cyflwyno cwyn.
- defnyddio cynghorydd ariannol rheoledig a fydd yn cymharu cynnyrch ar y farchnad a gwneud argymhelliad personol i chi.

Cael cyngor ariannol

Awdurdodir cynghorydd ariannol rheoledig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a rhaid iddo ddilyn rheolau llym wrth argymell cynnyrch. Nid yn unig y bydd yn dweud wrthyh chi pa bensiwn personol sydd fwyaf addas i chi yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol ac ariannol, ond gall hefyd argymell cynnyrch addas ar ôl cymharu'r hyn sydd ar gael ar y farchnad. Golyga hynny, os daw'n amlwg nad yw'r cynnyrch a argymhellwyd yn addas ar eich cyfer, gallwch gyflwyno cwyn. Os bydd y cynghorydd yn gwrthod eich cwyn, gallwch fynd â'ch cwyn at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Angen rhagor o gymorth?

Dod o hyd i gynghorydd ariannol yn ein **Cyfeirlyfr cynghorydd ymddeoliad**

Mae ein cyfeirlyfr yn cynnwys manylion cynghorwyr rheoledig yn unig – felly bydd gennych dawelwch meddwl eich bod wedi'ch diogelu'n llawn. Dewiswch ddelio gyda'ch cynghorydd yn bersonol, ar y ffôn neu ar-lein.

Chi sydd i benderfynu.

Chwiliwch am eich cynghorydd ariannol ar moneyadvice.service.org.uk/debt neu ffonio **0800 138 7777**



Cysylltwch â thri chynghorydd ariannol a reoleiddir o leiaf a gofyn iddynt faint y byddent yn ei godi i argymell a'ch helpu i sefydlu cynllun pensiwn personol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis cynghorydd a all argymell pensiwn personol gan unrhyw ddarparwr pensiwn ar y farchnad – bydd hynny'n rhoi'r dewis gorau posib i chi. Gwiriwch hefyd y gall y cynghorydd roi 'cyngor ariannol a reoleiddir' ac nid gwybodaeth neu 'ganllaw' heb ei reoleiddio yn unig.

- ➔ Dylech ond defnyddio cynghorydd ariannol sydd wedi'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. I ddod o hyd i gynghorydd ariannol rheoledig sy'n **arbenigo mewn pensiynau ac ymddeoliad, defnyddiwch ein Cyfeiriadur cynghorwyr ar ymddeoliad ar-lein yn moneyadvice.service.org.uk/directory**

Cost cyngor ariannol

Rhaid i gynghorwyr rheoledig ddweud wrthyh chi faint fydd eu gwasanaethau'n ei gostio a chytuno gyda chi faint y byddwch yn ei dalu yn awr ac yn y dyfodol.

- ➔ Dylech bob amser ofyn i'ch cynghorydd faint maent yn ei godi arnoch am eu cyngor yn awr ac yn y dyfodol.

Prynu heb gyngor

Mae rhai cwmnïau sy'n gwerthu cynnyrch yn rhoi help a gwybodaeth heb roi cyngor gwirioneddol i chi. Os byddwch yn prynu ar hyd y llwybr hwn ni allwch chi gwyno wedyn os bydd y cynnyrch yn anaddas yn y pendraw. Dylai'r cwmnïau hyn restru eu ffioedd hefyd a sut ddylid eu talu.

Os byddwch yn newid eich meddwl wedi i chi gymryd pensiwn ac arwyddo amdano

Wedi i chi gymryd pensiwn personol, mae'r hawl sydd gennych i ganslo'r contract yn para am 30 diwrnod. Ar ôl hyn, dim ond pan fyddwch yn cyrraedd 55 oed y gallwch gael mynediad at eich arian. Fodd bynnag, gallwch drosglwyddo i ddarparwr pensiwn personol arall neu i gynllun pensiwn gweithlu os ymunwch ag un.

Cwynion

Os oes gennych gŵyn am y cyngor a gawsoch pan oeddech yn prynu eich pensiwn cyfranddeiliaid, dylech yn gyntaf gysylltu â'r cwmni y buoch yn ymdrin ag ef. Mae ganddo weithdrefn gwyno benodol i'w dilyn.

Os nad ydych chi'n fodlon ar ei ymateb, gallwch fynd â'ch cwyn at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Dylai'r cwmni roi manylion y gwasanaeth am ddim hwn – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 20.

Pwynt allweddol

- ➔ Bydd cynghorydd ariannol yn medru rhoi cyngor neilltuoel i chi yn seiliedig ar eich amgylchiadau penodol a rhoi cymorth i chi ddod o hyd i ddarparwr.

Gostyngiad treth ar gynilo mewn pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn y DU sy'n cyfrannu at bensiwn personol yn cael gostyngiad treth ar eu cyfraniadau at bwynt penodol – hyd yn oed os nad ydyn nhw'n talu Treth Incwm yn arferol.

Ar gyfer pob 80c y byddwch yn ei dalu i mewn i'ch pensiwn, bydd gennych £1 yn eich cronfa pensiwn oherwydd bod Cyllid a Thollau EM (HMRC) yn ychwanegu 20c arall o ostyngiad treth cyfradd sylfaenol.

Mae gan yr Alban nawr gyfradd 'gychwynnol' is o dreth ar 19%, ond hyd yn oed os ydych chi'n talu treth ar y gyfradd is hon, byddwch yn dal yn gymwys i gael gostyngiad treth o 20% ar eich cyfraniadau pensiwn.

Enghraifft

Os byddwch yn talu £40 i mewn y mis, bydd gostyngiad treth yn cynyddu eich cyfraniad i £50. Os byddwch chi'n talu'r gyfradd Uwch neu Ychwanegol o dreth (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) neu gyfradd treth Canolig, Uwch neu Uchaf (yr Alban) gallwch hawlio gostyngiad treth pellach yn ôl gan HMRC.

Terfynau ar ostyngiad treth

Mae cyfyngiad ar y cyfanswm a delir i bob cynllun pensiwn ar gyfer unigolyn am bob blwyddyn dreth sy'n gymwys am y gostyngiad hwn. Gelwir hyn yn Lwfans Blyneddol, gweler tudalen 15 am fwy o wybodaeth.

Os nad oes gennych chi enillion trethadwy, byddwch yn dal i allu talu £2,880 y flwyddyn i gynllun pensiwn a derbyn gostyngiad yn y dreth. Gweler yr enghraifft ar y dde.

Enghraifft

Os bu i chi ennill llai na £3,600 y flwyddyn, yr uchafswm y gallech ei dalu fyddai £2,880 y flwyddyn (£240 y mis). Byddai'r darparwr pensiwn wedyn yn hawlio £720 (£60 y mis) gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac ychwanegu hyn at eich cronfa. Golyga hyn y byddai £3,600 (£300 y mis) yn mynd i'ch cronfa fel cyfanswm.

Gyda phensiynau personol, gan fod y gostyngiad treth yn cael ei hawlio gan y darparwr a'i ychwanegu'n awtomatig at eich cronfa, mae pawb yn ei gael – hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw fath o gyflogaeth â thâl neu os nad ydych yn talu Treth Incwm gan fod eich enillion yn isel.

Trethdalwyr cyfradd uwch

Rhoddir gostyngiad treth ar gyfradd sylfaenol o'r Dreth Incwm - 20% (2018-19). Mae hyn yn dal yn wir, hyd yn oed os ydych yn talu'r gyfradd gychwynnol o 19% yn yr Alban.

Fodd bynnag, os byddwch yn talu Treth Incwm ar unrhyw un o'r cyfraddau uwch, h.y. 40% neu 45% (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon), neu 21%, 41% neu 46% (yr Alban), gallwch hawlio'r gwahaniaeth rhwng 20% a'r gyfradd a dalwch trwy eich ffurflen dreth. Os nad ydych fel arfer yn llenwi ffurflen dreth, cysylltwch â HMRC i ofyn sut allwch chi hawlio'r gostyngiad treth atodol hwn yn ôl.

Y Lwfans Blyneddol

Mae'r Lwfans Blyneddol yn capio'r lefel o gyfraniadau pensiwn sy'n gymwys am ostyngiad treth. Gosodir y Lwfans Blyneddol safonol ar y gyfradd is o 100% o'ch enillion neu £40,000 am y flwyddyn dreth 2018-19. Serch hynny, gallwch gario unrhyw lwfansau na ddefnyddiwyd o'r tair blynedd flaenorol ymlaen. Mae'r Lwfans Blyneddol yn cael ei gyfrif fel cyfanswm i'r holl gynlluniau pensiwn sydd gennych (ar wahân i Bensiwn y Wladwriaeth).

Lwfans Blyneddol Graddedig os oes gennych chi incwm uchel

Mae'r Lwfans Blyneddol o £40,000 yn cael ei leihau, neu ei 'raddio' os yw eich 'incwm wedi'i addasu' (eich incwm blyneddol cyn treth plws gwerth eich cyfraniadau chi ac unrhyw gyfraniadau pensiwn gan eich cyflogwr) dros £150,000. Yn yr achos hwn bydd y Lwfans Blyneddol yn gostwng £1 am bob £2 y bydd eich incwm yn uwch na £150,000, hyd at uchafswm o ostyngiad o £30,000. Yn ymarferol mae hyn yn gostwng y Lwfans Blyneddol i £10,000 unwaith y bydd yr incwm a addaswyd yn cyrraedd £210,000. Os bydd eich incwm blyneddol ar ôl treth ac eithrio cyfraniadau pensiwn yn llai na £110,000 yna ni fydd y gostyngiad graddedig yn berthnasol.

Lwfans blyneddol llai pan ddechreuwch gymryd eich pensiwn

Os byddwch yn tynnu'r arian allan o'ch cronfa pensiwn o gynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio neu'n prynu blwydd-dal yn gyswllt â buddsoddiad, bydd lwfans blyneddol is o'r enw'r **Lwfans Blyneddol Prynu Arian** (MPAA) yn weithredol. Ar gyfer 2018-19 yr MPAA yw £4,000.

Cost dreth Taliadau os byddwch chi'n mynd dros y Lwfans Blyneddol

Os ewch dros y Lwfans Blyneddol, codir cost dreth ('y gost Lwfans Blyneddol') sydd yn adennill unrhyw ostyngiad treth a roddwyd ar y cychwyn. Wedyn bydd raid i chi lenwi ffurflen dreth hunan asesiad ac yna fel arfer byddwch yn talu'r dreth yn uniongyrchol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Ond mae'n bosib y byddwch yn gallu trefnu i'r dreth ddod allan o'ch cronfa pensiwn.

Lwfans Oes

Mae hefyd uchafswm ar werth cronfa pensiwn (ac eithrio Pensiwn y Wladwriaeth) a fydd yn cael budd o ostyngiad treth. Gelwir hyn yn Lwfans Oes ac ar hyn o bryd mae'n £1,030,000 (blwyddyn dreth 2018-19).

Os cronnwch gynilion pensiwn fydd yn fwy na'r Lwfans Oes byddwch yn talu treth ar yr hyn sydd dros y terfyn pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn.

Os byddwch wedi mynd dros y Lwfans Oes, bydd y darparwr pensiwn yn tynnu treth o'r arian dros y terfyn (ar ben y Dreth Incwm ar eich cyfradd arferol) ar y cyfraddau canlynol pan fyddwch yn dechrau tynnu arian o'ch cynllun pensiwn:

- 25% os bydd yn cael ei dalu fel incwm
- 55% os bydd yn cael ei dalu fel cyfandaliad.



Cymryd eich pensiwn

Nid oes angen i chi ymddeol i ddechrau tynnu arian o'ch pensiwn personol – er enghraifft gallwch barhau i weithio'n rhan-amser.

Ar hyn o bryd gallwch ddefnyddio eich cronfa bensiwn:

- ar unrhyw adeg o 55 oed ymlaen. Bydd hyn yn codi i 57 yn 2028 ac o hynny ymlaen bydd bob amser yn 10 mlynedd yn llai nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- cyn 55 oed **ond dim ond** os bydd eich iechyd yn wael neu os yw eich oedran ymddeol wedi ei ddiogelu

Opsiynau ar gyfer defnyddio'ch cronfa bensiwn

Dan reolau newydd a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015, unwaith y cyrhaeddych 55 mae gennych fwy o ddewis a hyblygrwyd nag erioed o'r blaen ynglŷn â sut a pha bryd y gallwch gymryd arian o'ch cronfa bensiwn.

Gallwch:

- adael eich cronfa bensiwn heb ei chyffwrdd – a dychwelyd ati'n ddiweddarach
- ddefnyddio'r gronfa i brynu incwm a warantir am oes – a elwir yn flwydd-dal oes. Mae'r incwm yn drethadwy, ond gallwch fel arfer ddewis cymryd hyd at 25% o'ch cronfa bensiwn fel cyfandaliad di-dreth unwaith ac am byth o'r cychwyn cyntaf.
- ddefnyddio'r gronfa i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg – a elwir yn- 'tynnu arian i lawr yn hyblyg' neu 'tynnu incwm'. Mae'r incwm yn drethadwy, ond gallwch fel arfer ddewis cymryd hyd at 25% o'ch cronfa bensiwn fel

cyfandaliad di-dreth unwaith ac am byth o'r cychwyn cyntaf.

- dynnu symiau bach o arian allan – bydd y 25% cyntaf o bob swm a dynnwch allan o'ch cronfa'n ddi-dreth. Codir treth ar y gweddill. Nid yw'r opsiwn hwn yn caniatáu i chi gymryd 25% o'ch cronfa bensiwn gyfan yn ddi-dreth ymlaen llaw.
- gymryd y gronfa gyfan fel arian – bydd y 25% cyntaf yn ddi-dreth a'r gweddill yn drethadwy
- gymysgu eich opsiynau – dewis unrhyw gyfuniad o'r uchod, gan ddefnyddio gwahanol rannau o'ch cronfa neu gronfeydd gwahanol ar wahân.

Nid yw pob cynllun a phob darparwr pensiwn yn cynnig yr holl opsiynau.

Cyn i chi wneud unrhyw benderfyniad, gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd y cyngor am ddim sydd gennych yr hawl ei gael drwy wasanaeth y llywodraeth, Pension Wise. Bydd o gymorth i chi ddeall beth allwch chi ei wneud gyda'ch cronfa bensiwn.

Wedi i chi gael y cyngor, argymhellwn eich bod yn chwilio am y fargen orau – peidiwch â bodloni ar gynnyrch eich darparwr pensiwn eich hun - a cheisiwch gyngor ariannol os bydd ei angen arnoch.

- ➔ Dysgwch ragor am eich opsiynau gyda'n hofferyn dewisiadau incwm ymddeol yn moneyadvice.service.org.uk/retirement-income-options

Neu lawrlwythwch ein canllaw '*Eich pensiwn - mae'n bryd dewis*'. Ewch i moneyadvice.service.org.uk a chwilio am 'Canllawiau printiedig am ddim'.

Esbonio'r Jargon

Lwfans blynyddol

Yr uchafswm ar faint allwch chi dalu i mewn i'ch pensiwn a hawlio gostyngiad treth mewn unrhyw flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys eich cyfraniadau chi a chyfraniadau'ch cyflogwr - ac unrhyw gyfraniadau a wneir ar eich rhan gan rywun arall. Yn y flwyddyn dreth 2018-19 y Lwfans blynyddol yw £40,000 neu 100% o'ch enillion os yw hynny'n is. Os ydych yn ennill llai na £3,600 gallwch dalu hyd at £2,880 i mewn a pharhau i gael gostyngiad treth.

Blwydd-dal

Cynnyrch yswiriant sy'n cynnig incwm gwarantiedig am oes yn gyfnewid am gyfandaliad.

Cofrestru awtomatig

Rhaid i gyflogwyr fel mater o drefn gofrestru gweithwyr cymwys ar gynllun pensiwn gweithle.

Contractio allan

Y cyfleuster i adael Ail Bensiwn y Wladwriaeth (SERPS gynt) ac adeiladu buddion mewn pensiwn personol neu randdeiliad. Dilëwyd yr opsiwn hwn o nifer o gynlluniau o 6 Ebrill 2012, ac mae'n debygol o ddod i ben ar gyfer cynlluniau sy'n gysylltiedig â chyflog o 6 Ebrill 2016 ymlaen.

Pensiwn buddion wedi'u diffinio

Yn talu incwm ymddeoliad yn seiliedig ar eich cyflog terfynol ac ers pryd y buoch chi'n rhan o'r cynllun. Mae pensiynau â buddion wedi'u diffinio, yn cynnwys cynlluniau pensiwn 'cyflog terfynol' a 'chyfartaledd gyrfa'.

Cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig

Yn cronni cronfa i dalu incwm ymddeoliad i chi yn seiliedig ar gyfraniadau gennych chi ac/neu'ch cyflogwr. Rhoddir eich cronfa i mewn i amryw o wahanol fuddsoddiadau, gan gynnwys cyfranddaliadau. Mae'r cyfanswm sydd yn sefyll yn eich cronfa bensiwn wrth i chi ymddeol yn dibynnu ar faint a dalwyd i mewn, a pherfformiad y buddsoddiadau. Gelwir hefyd yn gynlluniau 'prynu arian'. Yn cynnwys pensiynau gweithle a phersonol, gan gynnwys pensiynau rhanddeiliaid. Gallai gael ei redeg trwy gwmni yswiriant neu ddarparwr ymddiriedolaeth meistr, neu trwy gynllun penodol a sefydlwyd gan eich cyflogwr.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG)

Rydych yn talu'r rhain os ydych yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig er mwyn cronni'ch hawl i fudd-daliadau penodol, gan gynnwys y Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn wirfoddol hefyd er mwyn llenwi bylchau yn eich cofnod. Byddwch yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau YG ar gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Hawliau pensiwn a ddiogelir

Y rhan o'ch pensiwn y bu i chi ei adeiladu yn lle'r Ail Bensiwn y Wladwriaeth (SERPS yn flaenorol) tra roeddech wedi eich contractio allan trwy gynllun pensiwn â chyfraniad wedi'i ddiffinio.

Bellach mae pensiynau â hawliau wedi'u hamddiffyn wedi eu dileu ac yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw bensiwn arall sydd â chyfraniad wedi'i ddiffinio.

Incwm ymddeol

Yr arian sydd gennych i fyw arno mewn ymddeoliad. Gall hyn ddod o amryw o ffynonellau yn cynnwys Pensiwn y Wladwriaeth, pensiynau personol a'r gweithle, cynilion nad ydynt yn rai pensiwn, budd-daliadau a chyflog o unrhyw waith parhaus.

➔ Gweler eich opsiynau ar moneyadvice.service.gov.uk/retirement-income-options

Cynllun pensiwn cysylltiedig â chyflog

Gweler Pensiwn buddion wedi'u diffinio.

SERPS

Ystyr hyn yw Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion - yr hen Bensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth a delir i gyflogeion yn ychwanegol i Bensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth. A ddisodlwyd gan Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Pensiwn y Wladwriaeth

Taliad rheolaidd gan y llywodraeth yr ydych yn gymwys ar ei gyfer pan gyrhaeddych oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich cofnod Yswiriant Gwladol. Cyflwynwyd y pensiwn y wladwriaeth presennol ym mis Ebrill 2016

Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P)

A elwir hefyd yn Bensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth a delir ar ben eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Disodlodd SERPS.

Cyflwynwyd y Pensiwn y Wladwriaeth newydd ym mis Ebrill 2016 gan ddisodli S2P. Fodd bynnag, ni fydd budd-daliadau a gronwyd dan SERPs ac S2P yn cael eu colli.

Egluro Pwrcasu Arian Statudol (SMPI)

Dan reoliadau'r llywodraeth ar gyfer cynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig, rhaid i'ch darparwr pensiwn roi darlun blynyddol i chi o'r incwm pensiwn y gallech ei gael pan fyddwch yn ymddeol mewn arian heddiw.

Cyfandaliad arian parod di-dreth

Swm o arian parod a osodir gan y gyfraith y gallwch ei gymryd yn ddi-dreth wrth ymddeol. Fel arfer mae'n swm hyd at chwarter (25%) o'ch cronfa pensiwn er gall rhai polisïau ganiatáu i chi gymryd mwy - gwiriwch gyda darparwr eich polisi. Weithiau cyfeirir ato'n syml fel 'arian parod di-dreth'.

Blwyddyn dreth

O 6 Ebrill un flwyddyn i 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol.

Cysylltiadau defnyddiol

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn wasanaeth annibynnol, a gafodd ei sefydlu gan y llywodraeth i roi cymorth i bobl wneud y gorau o'u harian gan roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim am arian i bawb ledled y DU – ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Rydym yn rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar amrediad eang o bynciau gan gynnwys rheoli arian o ddydd i ddydd, cynilion, cynllunio eich ymddeoliad ac ar gyfer eich dyfodol, yn ogystal â chynghor a chymorth ar ddigwyddiadau sy'n newid bywyd megis cychwyn teulu neu golli eich swydd.

Am gyngor a mynediad at ein hoffer a'n cynllunwyr ewch i
moneyadvice.service.gov.uk

Neu ffoniwch ein Llinell Cyngor Ariannol ar
0800 138 7777*

Typetalk
1800 1 0800 915 4622

Dod o hyd i gynghorydd ariannol

Cyfeirlyfr cynghorydd ymddeoliad

Mae pob un o'r cynghorwyr a restrir wedi'u rheoleiddio ac awdurdodi gan yr FCA i gynnig cyngor ariannol rheoledig.

➔ Defnyddiwch ein Cyfeirlyfr cynghorwyr ymddeoliad ar-lein ar moneyadvice.service.gov.uk/directory i ddod o hyd i gynghorydd.

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

I wirio Cofrestr yr FCA, neu i adrodd am hysbysebion ariannol camarweiniol neu hyrwyddiadau eraill.

Llinell gymorth defnyddwyr:
0800 111 6768
Typetalk: 1800 1 0800 111 6768
fca.org.uk/register



Gwybodaeth a chyngor am bensiynau

Am fanylion eich cynllun pensiwn y gweithle siaradwch â'ch gweinyddwr pensiynau, rheolwr pensiynau neu ymddiriedolwyr pensiwn yn y gwaith.

Pension Wise

Cyngor diduedd a rhad ac am ddim – gyda chefnogaeth y llywodraeth.

0300 330 1001
pensionwise.gov.uk

Y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau

Am wybodaeth a chyfarwyddyd am ddim, annibynnol ar bob mater pensiwn.

0300 123 1047
pensionsadvisoryservice.org.uk

GOV.UK

Am wybodaeth ynglŷn â chynllunio a chynilo ar gyfer ymddeoliad, gan gynnwys Pensiynau'r Wladwriaeth a sut i ddod o hyd i bensiwn coll.

Datganiadau ac ymholiadau Pensiwn y Wladwriaeth
0800 731 0175
gov.uk/check-state-pension

Y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn
0800 731 0193
gov.uk/find-pension-contact-details

Cwynion ac iawndal

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

0800 023 4567 neu 0300 123 9123
financial-ombudsman.org.uk

Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

0800 678 1100 neu 020 7741 4100
fscs.org.uk

Yr Ombwdsmon Pensiynau

Ar gyfer cwynion am gynllun pensiwn gweithle neu bensiwn personol. Mae hefyd yn ystyried cwynion am benderfyniad a wnaethpwyd gan y Gronfa Diogelu Pensiynau neu'r Cynllun Cymorth Ariannol.
0800 917 4487

pensions-ombudsman.org.uk



**Gwasanaeth
Cyngori Ariannol**

Pensiynau personol yw un o'r canllawiau sydd ar gael gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol. I weld ein cyfres lawn o ganllawiau ac i archebu copïau ewch i  **moneyadvice.service.org.uk/freeguides**

Llinell Cyngor Ariannol 0800 138 7777*
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat clywedol cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Mae galwadau am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Gwybodaeth yn gywir pan gafodd ei hargraffu (Ebrill 2018).
Fe adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

Ebrill 2018

© Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol
Ebrill 2018
Cyf: PP_Apr2018_Edition1_Welsh